# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 4

CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU

*Darpariaeth atodol sy'n berthnasol i bob cymeradwyaeth*

### 24 Rheolau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth

(1) Rhaid i Gymwysterau Cymru wneud rheolau ynghylch gwneud ceisiadau iddo o dan y Rhan hon.

(2) Caiff y rheolau wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Caiff y rheolau wneud darpariaeth ynghylch—

- (a) ffurf a chynnwys ceisiadau;
- (b) y ffordd y mae ceisiadau i gael eu gwneud (gan gynnwys o ran unrhyw ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â chais).

(4) Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi'r rheolau a wneir o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 24 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 24.